

Teitl: Dull Arfaethedig o ran Cadw Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Tudalen grynodedb yr ymgynghoriad

| | | | |
|------------------------|---------------------|---------------------|-----------------------|
| Dyddiad lansio: | 04 Medi 2018 | Dyddiad cau: | 14 Hydref 2018 |
|------------------------|---------------------|---------------------|-----------------------|

Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â rheoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid, Ymadael â'r UE, a chywiriadau y mae gweinidogion yn bwriadu eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) i gadw cyfraith yr UE yn ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, gan roi sylw arbennig i swyddogaethau cyrff a sefydliadau penodol yr UE.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio barn busnesau, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd ehangach ar gywiriadau y mae gweinidogion yn bwriadu eu gwneud i gyfraith yr UE sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Enw: Gavin Shears

Is-adran / Cangen: Cyfarwyddiaeth
Strategaeth Reoleiddio a Chyfreithiol

Asiantaeth Safonau Bwyd

Ffôn: 020 72768713

Cyfeiriad post

Llawr 7, Clive House,
70 Petty France,
Llundain,
SW1H 9EX

E-bost: EUExitPolicy@food.gov.uk

A oes Aseiad Effaith ynghlwm?

Oes

Nac oes

Dull Arfaethedig o ran Cadw Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Manylion yr Ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Yn dilyn refferendwm y Deyrnas Unedig (DU), a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y mwyafrif i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ar 26 Mehefin 2018, pasiwyd Deddf Yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA).
2. Mae'r EUWA yn darparu, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, y bydd peth o ddeddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn y DU yn cael ei throsi'n gyfraith y DU. Yn yr Ymgynghoriad hwn, rydym ni'n cyfeirio at y gyfraith a gaiff ei throsi fel "cadw cyfraith yr UE".
3. Mae'r EUWA hefyd yn rhoi pwerau i weinidogion gywiro cyfraith yr UE sy'n cael ei chadw, fel ei bod yn gweithredu'n effeithiol fel cyfraith y DU. Bydd y cywiriadau hyn yn cael eu gweithredu trwy offerynnau statudol. Mae adrannau wrthi'n paratoi'r rhain.
4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chywiriadau y mae gweinidogion yn bwriadu eu gwneud i gadw cyfraith yr UE o ran diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, gan roi sylw arbennig i swyddogaethau cyrff a sefydliadau penodol yr UE.
5. Mae'r Llywodraeth yn hyderus y bydd yn cytuno ar bartneriaeth ystyrion ac arbennig gyda'r UE, ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar lawer o faterion. Er bod y Llywodraeth yn hyderus y bydd yn cytuno ar fargen dda i'r ddwy ochr, mae'n rhaid i'r Llywodraeth barhau i baratoi ar gyfer pob sefyllfa, gan gynnwys y canlyniad annhebygol y byddwn yn gadael yr UE heb unrhyw fargen ym mis Mawrth 2019. Mae'r cynllunio wrth gefn hwn ar gyfer sefyllfa nad yw'r Llywodraeth yn disgwyl iddi ddigwydd, ond dylid sicrhau pobl bod y Llywodraeth yn gweithredu dull cyfrifol tuag at drafodaethau. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai angen amser i addasu ar fusnesau a dinasyddion mewn sefyllfa 'dim bargaen', felly er mwyn cwtdogi ar unrhyw amharu, bydd ein ffocws ar gynnal parhad yn y tymor byr. Yr amcan fydd sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw eu bywydau fel arfer.
6. Blaenoriaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw cynnal safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU.

Cynigion

7. Mae Gweinidogion yng Nghymru, San Steffan a'r Alban a swyddogion yng Ngogledd Iwerddon wedi bod yn gweithio gyda'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau, pan fo'r DU yn ymadael â'r UE, bod y safon

uchel yr ydym ni'n ei Mae adrannau wrthi'n paratoi'r rhain.wynhau ar hyn o bryd yn parhau o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr.

8. Un agwedd ar y gwaith hwn yw archwilio cyfraith yr UE sy'n cael ei chadw ar fwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithio'n iawn fel rhan o gyfraith ddomestig.
9. Ar hyn o bryd, mae nifer o swyddogaethau sy'n cadw cyfraith yr UE yn gofyn i rai cyrff yr UE (fel Comisiwn yr UE) weithredu ar ran y DU. Ond, unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE, ni fydd y cyrff hyn bellach yn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Felly, ni fydd cyfraith yr UE yn gweithio'n iawn oni bai bod rhywbeth yn cael ei wneud i drosglwyddo'r swyddogaethau i gyrff cyhoeddus y DU.
10. Felly, mae Gweinidogion yn bwriadu gwneud nifer o gywiriadau i gyfraith yr UE sy'n cael ei chadw, gan ddefnyddio pwerau dan yr EUWA. Bydd y cywiriadau'n cael eu gweithredu trwy offerynnau statudol sydd wrthi'n cael eu paratoi. Mae rhestr o'r offerynnau statudol wedi'i nodi isod. Mae'r rhestr yn enghreifftiol yn unig ar hyn o bryd.
11. Y prif gywiriadau fydd darparu opsiwn amgen addas i gynnal y swyddogaeth rheoli risg a gynhelir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd ac ar gyfer y swyddogaeth asesu risg a gynhelir gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) ar hyn o bryd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r Offerynnau Statudol Ymadael drosglwyddo'r swyddogaethau rheoli ac asesu risg yng nghyfraith yr UE sy'n cael eu cadw i awdurdodau priodol y DU (gweler Atodiad C i gael rhagor o wybodaeth am asesu a rheoli risg). Blaenoriaeth yr ASB yw cynnal safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU, a sicrhau dull cymesur, sy'n seiliedig ar risg wrth ddarparu asesiadau risg.
12. Yn amodol ar drafodaethau gyda'r UE, bydd y DU yn ailddiffinio a ffurfioli perthynas waith agos gydag EFSA yn seiliedig ar gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd, cyfrannu at rwydweithiau gwyddonol, a chydweithredu ar draws Ewrop.
13. Bydd cywiriadau eraill i gyfraith yr UE sy'n cael ei chadw, er enghraifft, caniatáu i awdurdodau priodol y DU (yn hytrach na Chomisiwn yr UE) osod lefelau diogelwch (er enghraifft yn ymwneud â hylendid neu halogiad) y mae'n rhaid i fwyd gydymffurfio â nhw a phrosesau cymeradwyo.
14. Ni ddylai'r cywiriadau hyn arwain at unrhyw newid sylweddol o ran y graddau y mae cyfraith yr UE yn diogelu iechyd pobl neu anifeiliaid, nac i safon uchel bwyd a bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl mewn perthynas â chynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig, a'r rhai a gaiff eu mewnfurio. Mae gofyn i'r offerynnau statudol sy'n gwneud y cywiriadau gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Senedd, ac ni ellir eu gwneud oni bai fod y Senedd yn fodlon bod y mesurau diogelu a'r safonau hyn yn cael eu cynnal.
15. Er bod materion sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u datganoli – gan olygu y gall pedair gwlad y DU wneud a gweithredu eu cyfraith eu hunain yn y meysydd hyn – mae'r maes polisi

hwn wedi'i ddynodi gan Lywodraeth y DU fel un lle dylid ystyried un dull cyffredin o reoli newidiadau i gyfraith yr UE a fydd yn cael ei chadw.¹

16. Mae trafodaethau'n parhau rhwng awdurdodau cenedlaethol y DU ar sut y gallai hyn weithio.
17. Yn y cyfamser, ac i sicrhau bod y DU yn barod ar gyfer pob canlyniad posibl i drafodaethau parhaus gyda'r UE, mae Llywodraeth y DU yn ceisio caniatâd y Gweinyddiaethau Datganoledig i wneud cywiriadau sy'n ymestyn i'r DU gyfan er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithredu ar ôl ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gytuno ar yr ymagwedd hon a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda nhw ar y cywiriadau arfaethedig i gyfraith yr UE. Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i fodloni'r holl ofynion hysbysu, caniatâd a gweithdrefnol perthnasol ar gyfer yr offerynnau statudol.
18. Isod, mae rhestr o brif gyfraith yr UE sy'n cael ei chadw ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid, lle mae cywiriadau'n cael eu cynnig mewn perthynas â nhw.

Cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (Diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid)

- Rheoliad (CE) 178/2002 – ar Gyfraith Bwyd Gyffredinol
- Rheoliad (CE) 852/2004 – ar hylendid bwydydd
- Rheoliad (CE) 853/2004 – gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid
- Rheoliad (CE) 183/2005 – ar hylendid bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (CE) 2074/2005 – pennu mesurau gweithredu ar gynhyrchion penodol o dan Rheoliad (CE) 853/2005 a Rheoliad (CE) 882/2004

Caniatâd/awdurdodiadau Comisiwn yr UE

- Rheoliad (CE) 1829/2003 – Bwyd a bwyd anifeiliaid GM – awdurdodi a labelu
- Rheoliad (CE) 2283/2015 – Rheoliadau bwyd newydd
- Rheoliadau (CE) 1935/2004 – Deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd
- Rheoliadau (CE) 315/1993 – Halogion bwyd
- Rheoliadau (CE) 2073/2005 – Meini prawf microbiolegol
- Rheoliadau (CE) 1831/2003 – Ychwanegion bwyd anifeiliaid
- Rheoliadau (CE) 68/2013 – Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid
- Rheoliadau (CE) 1332/2008 – Ensymau bwyd
- Rheoliadau (CE) 1333/2008 – Ychwanegion bwyd
- Rheoliadau (CE) 1334/2008 – Cyflasynnau bwyd
- Rheoliadau (CE) 234/2011 – Gweithdrefn Awdurdodi Gyffredin

¹ Mae diogelwch bwyd wedi'i nodi gan Lywodraeth Ei Mawrhydi fel un o 24 o feysydd allweddol y mae'n bosibl y bydd gofyn cysoni ar draws y DU <https://www.gov.uk/government/publications/frameworks-analysis>.

Gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (rheolaethau swyddogol)

- Rheoliad (CE) 882/2004 – ar reolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol (hefyd yn cwmpasu iechyd a lles anifeiliaid – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn arwain).
- Rheoliadau (CE) 854/2004 – gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd i'w bwyta gan bobl
- Rheoliad (CE) 669/2009 – rheoleiddio cynhyrchion risg uchel penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid

Labelu bwyd a bwyd anifeiliaid (mae gan Defra, yr Adran Iechyd a'r ASB oll gyfrifoldebau am wahanol rannau)

- Rheoliadau (CE) 1830/2003 – ar olrhain a labelu organebau GM, ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid GM
- Rheoliadau (UE) 1169/2011 – ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC).
- Rheoliadau 767/2009 – ar osod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnydd.

(bydd yr holl is-reoliadau ac unrhyw reoliadau neu gyfarwydddebau eraill a nodir y mae gofyn eu trosi, eu diwygio neu eu hymgorffori hefyd yn cael eu cynnwys fel sy'n briodol).

Rhestr o'r Offerynnau Statudol Arfaethedig i Drwsio Elfennau o Gyfraith yr UE nad oes modd eu Gweithredu ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

- Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Hylendid Bwydydd Cyffredinol (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Hylendid Bwydydd Penodol (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd wedi'i Rewi'n Gyflym (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl) (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Egin a Hadau (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Bwyd Newydd (Ymadael â'r UE) 2018
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau ac Ensymau (Ymadael â'r UE) 2018
- Newidiadau trosiannol ac amrywiol terfynol cyn Ymadael (i gynnwys newidiadau a materion dilynol a nodir)

Pwysig: Mae'n bosibl y bydd yr awdurdodau priodol yn cynnal ymgynghoriad ar feysydd eraill o gyfraith bwyd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn maes o law.

Effaith

Costau

Diwydiant

Costau Ymgysylltu

19. Rydym ni'n cymryd yn ganiataol bod pob sefydliad bwyd cofrestredig yn ymwneud â'r maes hwn o ddeddfwriaeth ac felly bydd yn rhaid iddynt fuddsoddi i ddeall y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl Cofrestr Busnesau Rhyngadrannol yr ONS (IDBR), roedd 292,860 o fusnesau gweithredol yn y sector bwyd-amaeth yn 2017. Rydym ni'n rhagweld costau ymgysylltu untro (*one off*) i fusnesau; rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd llai na 30 munud i bob busnes ddarllen a deall y rheoliadau arfaethedig ac yna lledaenu'r wybodaeth i staff allweddol o fewn eu cwmni. Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau a ragwelir yn cyflwyno unrhyw effaith arall ar weithrediadau busnesau o ddydd i ddydd gan nad yw'r rheolau yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Gorfodi

Costau Ymgysylltu

20. Mae oddeutu 419 o awdurdodau lleol a 35 o awdurdodau iechyd porthladdoedd yn y DU. Rydym ni'n rhagweld costau ymgysylltu untro bach iawn i'r awdurdodau hyn; rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd llai na 30 munud i awdurdodau ddarllen ac ymgysylltu â Rheoliadau'r UE ac yna lledaenu'r wybodaeth i staff a rhanddeiliaid allweddol. Amcangyfrifir y bydd gofyn i un swyddog ym mhob un o'r awdurdodau hyn (un Swyddog Bwyd/Bwyd Anifeiliaid o bob awdurdod lleol; ac un 'Swyddog Iechyd Porthladd' o bob awdurdod iechyd porthladd) gyflawni'r dasg hon.

21. O'i gymharu â'r system gyfredol, ni fyddai unrhyw faich ychwanegol na newydd ar gyrff gorfodi, ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y costau uchod.

22. At hynny, mae'r ASB yn anelu at leihau'r effaith ar fusnesau ac awdurdodau trwy ddarparu gwybodaeth am unrhyw newidiadau i ofynion brandio cyfredol yr UE cyn gynted ag y bo modd i sicrhau digon o amser i weithredu. Byddwn yn parhau i dargedu ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a bydd ymgynghoriad ffurfiol yn dilyn fel sy'n ofynnol.

Buddion

23. Nid oes unrhyw fuddion cynyddol sy'n gysylltiedig â'r cynnig gan nad yw'n gosod beichiau ychwanegol na newydd ar fusnesau na chyrrff gorfodi.

Y prif gynnig/gynigion:

- **I wneud cywiriadau i gyfraith yr UE sy'n cael ei chadw ar fwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau y caiff y lefelau diogelwch a safonau bwyd eu cynnal yn y DU pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.**

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Y Broses Ymgynghori

24. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am gyfnod o 6 wythnos. Mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Gellir cyhoeddi ymgynghoriadau atodol pellach i fynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol a nodir wrth drwsio elfennau anweithredol o gyfraith yr UE sy'n cael ei chadw yn y maes hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r dull cyffredinol o drwsio elfennau anweithredol cyfraith yr UE sy'n cael ei chadw, gan roi sylw arbennig i swyddogaethau cyrff penodol yr UE.

Ymgysylltu â defnyddwyr

25. Rhwng mis Hydref 2016 a mis Ionawr 2017, roedd yr ASB yn ymwneud â sefydliadau mawr a bach sy'n ymgysylltu â'r sector bwyd a diod ac aelodau'r cyhoedd am ymadawiad y DU o'r UE. Fe wrandawon ni wrth i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan archwilio'r cyfleoedd a'r problemau maen nhw'n eu gweld, a rhannu eu disgwyliadau o'r ASB. Mae dolen i'r adroddiad llawn i'w gweld yn Atodiad B.

Grwpiau yr effeithir arnynt

26. Bydd y cynnig i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE sy'n cael ei chadw ar fwyd a bwyd anifeiliaid yn berthnasol i holl fusnesau bwyd y DU (gan gynnwys bwyd anifeiliaid) a swyddogion gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol, yn ogystal â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ym maes cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU.

27. Bydd busnesau a rhanddeiliaid gorfodi cyfraith bwyd yn dymuno bod yn gyfarwydd â'r prif gywiriadau a gynigir gan y bydd gofyn iddynt weithredu arnynt er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

C1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull arfaethedig o drwsio unrhyw elfennau anweithredol yng nghyfraith yr UE sy'n cael ei chadw ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl Ymadael â'r UE fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

C2: A ydych chi'n rhagweld unrhyw bryderon neu risgiau ynghlwm â'r dull arfaethedig i drwsio elfennau anweithredol yng Nghyfraith yr UE sy'n cael ei chadw nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael sylw digonol?

C3: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r mesurau arfaethedig eu cael nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

C4: A ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?

C5: Er bod yr ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau bod swyddogaethau cyfraith yr UE yn parhau ar y diwrnod y mae'r DU yn ymadael â'r UE, a oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU ar ôl Ymadael â'r UE?

Ymateb i'r Ymgynghoriad

28. Mae gofyn i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar **14 Hydref 2018**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Enw: Gavin Shears

Cangen/Is-adran: Cyfarwyddiaeth Strategaeth Rheoleiddio a Chyfreithiol

Atodiadau

Atodiad A: Gwybodaeth Safonol am yr Ymgynghoriad

Atodiad B: Adroddiad yr ASB ar safbwynt y DU ar Ymadael â'r UE a bwyd

Atodiad C: Rheoli ac asesu risg

Atodiad A: Cyhoeddi data personol a chyfrinachedd ymatebion

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr Asiantaeth Safonau Bwyd, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy gyfundebau fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y ganolfan seiberddiogelwch genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

3. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi².

² www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Atodiad B: Adroddiad yr ASB ar safbwynt y DU ar Ymadael â'r UE a bwyd

www.food.gov.uk/research/research-projects/consumers-views-on-eu-and-food
(Saesneg yn unig)

Atodiad C: Rheoli ac Asesu Risg

O ganlyniad i Ymadael â'r UE, bydd swyddogaethau rheoli risg diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu cynnal gan yr UE ar hyn o bryd (gweler y manylion isod) yn dychwelyd i'r DU. Heb ddylanwadu ar unrhyw drefniadau posibl yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE, bydd y DU yn gyfrifol am benderfyniadau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch bwyd (a bwyd anifeiliaid).

Mae penderfyniadau rheoli risg diogelwch bwyd (penderfyniadau a wneir i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label) yn amrywio, mae rhai yn gymharol hawdd, tra bod eraill yn fwy cymhleth. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- newidiadau technegol arferol i awdurdodiadau ychwanegion a ganiateir neu gemegion bwyd eraill
- awdurdodiadau ar gyfer bwydydd newydd
- lefelau uchaf a ganiateir o sylweddau annymunol o'r amgylchedd mewn bwyd
- organebau a addaswyd yn enetig mewn bwyd
- defnydd o driniaethau arbelydru neu gemegol i leihau organebau peryglus sy'n bresennol mewn bwyd.
- cyfathrebu â defnyddwyr am risgiau diogelwch bwyd
- ymateb i ddigwyddiad diogelwch bwyd
- mesurau brys i ddiogelu'r gadwyn fwyd

Mae gan Weinidogion eisoes yr ystod o bwerau sydd eu hangen i berfformio swyddogaethau rheoli risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid o dan ddeddfwriaeth bresennol y DU. Mae darpariaethau tebyg yn bodoli yn y Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r ASB yn gyfrifol am ddadansoddi risg (asesu a chyfathrebu risg), ac mae Safonau Bwyd yr Alban yn cyflawni rôl debyg yn yr Alban. Felly, pan fyddwn ni'n ymadael â'r UE, ni fydd unrhyw fylchau sy'n effeithio ar allu'r Llywodraeth i wneud y penderfyniadau rheoli risg angenrheidiol, gyda chefnogaeth yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban fel sy'n briodol.

Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol sicrhau bod cyfreithiau'r UE a gaiff eu cadw yn cyfeirio at reolwyr ac aseswyr risg perthnasol y DU fel y bydd y rheolau cyfredol yn parhau i weithredu'n effeithiol ar y diwrnod y byddwn yn Ymadael â'r UE. At hynny, mae trafodaethau'n parhau ar draws y Llywodraeth a chyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar y ffordd orau o drefnu swyddogaethau Rheoli ac Asesu Risg ar gyfer y DU ar ôl i ni Ymadael â'r UE.

Blaenoriaeth yr ASB yw cynnal safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU, ac i sicrhau ein bod ni'n mabwysiadu dull seiliedig ar risg, cymesur wrth asesu risg.

Bydd y DU yn datblygu opsiynau eraill ar gyfer rhai o'r swyddogaethau a ddarperir gan EFSA ar hyn o bryd, gan adeiladu ar strwythurau cynghori gwyddonol sydd eisoes yn bodoli. Yn ddibynnol ar drafodaethau, byddwn ni'n ailddiffinio ac yn ffurfioli perthynas waith agos gydag EFSA yn seiliedig ar

gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd, cyfrannu at rwydweithiau gwyddonol, a chydweithio ar draws Ewrop.

Trefniadau Presennol

Caiff diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ei reoli trwy broses o ddadansoddi risg. Asesir risgiau posibl, ac os oes angen, fe wneir penderfyniad i reoli'r risg ('penderfyniad rheoli risg'). Ar hyn o bryd, caiff swyddogaethau asesu risg a rheoli risg eu cynnal ar lefel yr UE gan asiantaethau a sefydliadau'r UE.

Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn cynnal asesiad risg trwy ei rwydwaith o arbenigwyr o bob cwr o'r byd, gan gynnwys y DU. Mae EFSA yn cynghori ar risgiau diogelwch bwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd a'r aelod-wladwriaethau. Mae Comisiwn yr UE yn cefnogi penderfyniadau ar y cyd gan yr aelod-wladwriaethau, trwy ymgynghori â nhw ar yr hyn sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelwch bwyd. Ystyrir ystod o wybodaeth yn ystod y broses hon, gan gynnwys gwybodaeth gan randdeiliaid. Yna, mae Comisiwn yr UE yn cyflwyno cynnig. Trafodir a chytunir ar gynigion ym Mhwyllgor Sefydlog Comisiwn yr UE ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (SCOPAFF). Mae'r ASB yn cydlynu sefyllfa'r DU ac yn cynrychioli'r DU yn y broses hon. Yna, mae gan Senedd Ewrop a Chyngor yr UE o Aelod-wladwriaethau y cyfle i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth cyn iddi ddod yn gyfraith.

Ar lefel genedlaethol, mae'r ASB yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae corff ar wahân, Safonau Bwyd yr Alban yn cyflawni swyddogaeth debyg yn yr Alban. Yr ASB, gyda Safonau Bwyd yr Alban, yw Awdurdod Cymwys Canolog y DU ac yn y capasiti hwn, yr ASB yw'r awdurdod cyfreithiol dirprwyedig ar gyfer cynnal swyddogaethau mewn perthynas â rheolaethau diogelwch bwyd swyddogol. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cydweithio'n agos i weithredu polisi diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ledled y DU ac maent yn gyfrifol am asesiadau risg ar lefel genedlaethol.

Mae'r ASB yn gweithio ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys gyda Safonau Bwyd yr Alban a Llywodraethau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, gan ddwyn unrhyw broblemau at sylw gweinidogion y Llywodraeth fel sy'n briodol.